| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adrodd yn ôl i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **25 Mawrth 2025** |
| Testun: | **Cynllun Strategol Drafft Perygl Llifogydd** |
| Deiliad Portffolio: | **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** |
| Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr: | **Huw Percy**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif ffôn:<br>Ebost: | **Rowland Thomas**<br>**01248 752312**<br>**rowlandthomas@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Yn berthnasol i bob aelod etholedig** |

## A – Argymhellion a rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo a chefnogi'r Cynllun Strategol Rheoli Perygl Llifogydd.

Mae'r Cynllun Strategol yn nodi cynlluniau'r Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn Ynys Môn am gyfnod o chwe blynedd.

Mae'r dogfennau sy'n bresennol yn dilyn naw Maes Blaenoriaeth Allweddol (MBA) sydd wedi'u datblygu wrth ystyried Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru a pholisïau a chynlluniau lleol Ynys Môn:-

- **MBA 1** – Gwella dealltwriaeth o beryglon llifogydd / arfordirol lleol
- **MBA 2** – Gwella cyfathrebu
- **MBA 3** – Cynyddu parodrwydd a gwydnwch
- **MBA 4** – Cydweithio i leihau peryglon llifogydd / arfordirol
- **MBA 5** – Lleihau risg ac effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol
- **MBA 6** – Agwedd gynaliadwy a chyfannol
- **MBA 7** – Lle bo'n bosibl, blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf
- **MBA 8** – Darparu ymateb priodol, effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol
- **MBA 9** – Defnyddio gwybodaeth a data i lywio penderfyniadau cynllunio a llunio polisïau

Mae'r cynllun strategol hefyd yn egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau, yn fewnol ac yn allanol, ynglŷn â rheoli perygl llifogydd.

Mae cyfres o fesurau wedi'u datblygu i sicrhau y cyflawnir y cynllun strategol, ac mae cynllun gweithredu yn cyflwyno'r tasgau a'r ymrwymiadau penodol sydd eu

hangen ar Gyngor Sir Ynys Môn i sicrhau bod yr MBA yn cael eu cyflawni.


**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

## A – Argymhellion a rhesymau

Bydd y cynllun strategol / cynllun gweithredu yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Mae'r cynllun strategol wedi'i baratoi ochr yn ochr â Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLl) sy'n nodi perygl llifogydd lleol trwy'r hyn a ragwelir yn ogystal â digwyddiadau llifogydd a gofnodwyd.

Cwblhawyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 11 Tachwedd a 20 Rhagfyr. Am fwy o wybodaeth, gweler Atodiad 3.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'n ofyniad statudol ar y cyngor i baratoi Cynllun Strategol Perygl Llifogydd.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'n gynllun statudol sydd angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r Cynllun Strategol wedi'u halinio â Chynllun y Cyngor, ac mae'r holl MBA wedi'u diffinio i ategu ymrwymiadau presennol y Cyngor i'r amgylchedd a'r etholwyr.

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae datblygiad y Cynllun Strategol wedi’i ariannu drwy gyllidebau refeniw presennol a dyraniad rheoli perygl llifogydd blynyddol gan Lywodraeth Cymru.

Mae’r Cynllun Strategol yn ymrwymo i fuddsoddiad refeniw a chyfalaf, yn amrywio o ddiweddaru a datblygu polisïau i ymchwilio i ddichonoldeb cynlluniau lliniaru llifogydd mewn ardaloedd ‘mewn perygl’.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid refeniw rheoli perygl llifogydd blynyddol o £225,000, sydd wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw. Defnyddir y cyllid i sybsideiddio ymrwymiad statudol ac anstatudol y Cyngor i reoli perygl llifogydd. Mae'r Cynllun Strategol wedi'u datblygu ar y rhagdybiaeth y bydd

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| yr ymrwymiad ariannu hwn yn parhau am oes lawn y cynllun strategol. Fe'n hysbyswyd yn ddiweddar y bydd y dyraniad yn cael ei leihau i £191,000.<br><br>Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ceisiadau am gyllid i ymchwilio i ddichonoldeb a chyflawniad cynlluniau lliniaru llifogydd. Yn amodol ar gymeradwyaeth cyllid, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i 85% o gyllid tuag at asesu, dylunio ac adeiladu. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ariannu'r 15% sy'n weddill o holl gostau'r prosiect. Er mwyn cyflawni'r cynllun gweithredu'n llawn, bydd angen i'r Cyngor barhau i ddarparu buddsoddiad cyfalaf a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i reoli a chyflawni unrhyw gynlluniau posibl.<br><br>Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ffurfio Corff Cymeradwyo CDC (nodweddion draenio cynaliadwy) ar gyfer pob datblygiad sydd â goblygiadau draenio o 100m² neu fwy. Lle mae'r datblygiad yn cynnwys asedau a rennir, mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddod i gytundeb i fabwysiadu'r nodweddion draenio a rennir yn dilyn adeiladu. Mae'r ffioedd cais CCS yn sefydlog yn unol â'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. O fewn y Cynllun Strategol, mae'r Cyngor yn cynnig gweithredu gwasanaeth cyn ymgeisio. Gall hyn gynhyrchu incwm ychwanegol ynghyd â darparu eglurder a chyngor lleol i ddatblygwyr. Mae'r gwasanaeth cyn ymgeisio presennol yn cael ei ddarparu ar sail ad hoc ar hyn o bryd, heb godi tâl.<br><br>Lle bo'n berthnasol, bydd y Cyngor yn ceisio gweithio ar y cyd ag Awdurdodau Rheoli Risg (ARhP) i leihau perygl llifogydd. Fel rhan o'r broses hon, bydd y Cyngor yn ymchwilio i'r posibilrwydd o fuddsoddiad cyllid trydydd parti. |

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Rhagwelir y bydd perygl llifogydd yn cynyddu yn Ynys Môn yn y dyfodol. Felly mae angen clir i reoli risg cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gynnal llawer o asedau perygl llifogydd. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnig defnyddio'r technolegau diweddaraf i wella cofnodion ac amserlenni cynnal a chadw. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i atgyweirio a rheoli asedau yn hytrach na chostau adnewyddu cyfanwerthu pan fyddant yn mynd yn ddiffygiol.<br><br>Drwy nodi ardaloedd 'mewn perygl', mae gan y Cyngor gyfle i wneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru i leihau perygl llifogydd yn y sir. |


**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

| Dd – Asesu’r effaith bosibl (os yw’n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 3 | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i’r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Cydweithio mewnol a thraws-wasanaeth ar ddatblygu'r cynllun strategol, er mwyn helpu i lunio'r amcanion a diffinio rolau a chyfrifoldebau mewnol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn, gan gynnwys y rhai y mae’r penderfyniad yn effeithio’n uniongyrchol arnynt, wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen? Eglurwch sut. | Cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau etholedig i gyfrannu at y cynllun strategol drafft.<br><br>Mae'r cynllun strategol drafft wedi bod yn destun i gyfnod o ymgynghori cyhoeddus. Roedd y broses ymgynghori yn cynnig cyfle i ddinasyddion gyfrannu tuag at y cynllun strategol terfynol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi’w gwblhau.<br><br>Nod y Cynllun Strategol yw cynnig buddion i ddinasyddion sy'n effeithio ar gymdeithas gyfan. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai’r penderfyniad yn ei chael ar unrhyw un sy’n profi anfantais economaidd neu gymdeithasol. | Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi’w gwblhau.<br><br>Gall lleihau perygl llifogydd i gymunedau gael effaith gadarnhaol ar brisiau tai a phremiymau yswiriant cartref. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi’w gwblhau.<br><br>Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol eu nodi. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth ddywedon nhw? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arwain (TA) (gorfodol) | Mae sylwadau o'r TA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad ac mae'r adroddiad drafft yn cael ei gymeradwyo gan y TA. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Mae'r Swyddog Adran 151 yn Aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi cael eu hystyried mewn trafodaethau ar yr adroddiad hwn yn y TA. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn Aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi cael eu hystyried mewn trafodaethau ar yr adroddiad hwn yn y TA. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | D/B |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth ddywedon nhw? |
|---|---|---|
| 5 | Eiddo | D/B |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | D/B |
| 7 | Caffael | D/B |
| 8 | Craffu | Cafodd y Cynllun Strategol Perygl Llifogydd drafft ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2025. Penderfynodd y Pwyllgor argymell y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu gydag argymhelliad ychwanegol ei fod hefyd yn cynnwys fel atodiadau'r amserlen cynnal a chadw a gynlluniwyd ynghyd â'r cynllun cyfalaf ar gyfer 2025/26 sy'n dangos gwariant wedi'i gynllunio ar gynlluniau llifogydd yn y flwyddyn ariannol nesaf. |
| 9 | Aelodau Lleol | Cynhaliwyd gweithdy ar 13/02/24 gydag Aelodau lleol i helpu i lywio'r Cynllun Strategol.<br>Sesiwn Briffio Aelodau 04/03/2025 |

| F - Atodiadau: |
|---|
| 1. Cynllun Strategol Perygl Llifogydd<br>2. Adroddiad Adborth Ôl Ymgynghori |

| Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey

# Cynllun Strategol Perygl Llifogydd

## I'w adolygu bob 6 blynedd

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /

This document is also available in English.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru

# Rhagair

*Newid hinsawdd yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r byd ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys Ynys Môn, ei thrigolion, ymwelwyr a chymunedau.*


*Bydd newid hinsawdd yn cynyddu lefel y môr a bydd stormydd mwy dwys i'w gweld. Bydd angen i wneud penderfyniadau anodd ar sut i reoli'r risgiau cysylltiedig er mwyn sicrhau gwytnwch o ran yr hinsawdd.*

*Mae'r cynllun strategol hwn yn cryfhau ein safbwynt i ran atal a'r cysylltiadau â'n Cynllun y Cyngor, Cynllun Strategol Cyfalaf a chynlluniau eraill er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â risgiau tymor byr a thymor hir mewn modd rhagweithiol ac effeithiol.*

*Mae ein hagwedd yn annog gwytnwch ehangach, ataliaeth ac ymwybyddiaeth er mwyn gallu gwneud gwell penderfyniadau ar y rhai hynny sydd â dylanwad ar ddatblygiadau ac addasiadau hinsawdd. Mae cydweithio â phartneriaid, yn cynnwys asiantaethau a'n cymunedau er mwyn cyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd yn hanfodol. Nid yw'n bosibl diddymu'r holl risgiau ond gallwn ei reoli a helpu i leihau ei effaith.*

*Tra bo'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau risg, mae'r bwlch rhwng dyheadau a'r gallu i ddarparu yn tyfu o ganlyniad i'r straen parhaus ar adnoddau a chapasiti, yn enwedig o ystyried yr heriau ariannol presennol. Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn gallu darparu.*

# Pam fod angen Cynllun Strategol Perygl Llifogydd arnom?



Flood and Water Management Act 2010

CHAPTER 29

CONTENTS

PART 1

FLOOD AND COASTAL EROSION RISK MANAGEMENT

*1. Key concepts and definitions*

1 "Flood" and "coastal erosion"
2 "Risk"
3 "Risk management"
4 "Flood risk management function"
5 "Coastal erosion risk management function"
6 Other definitions

*2. Strategies, co-operation and funding*

7 National flood and coastal erosion risk management strategy: England
8 National flood and coastal erosion risk management strategy: Wales
9 Local flood risk management strategies: England
10 Local flood risk management strategies: Wales
11 Effect of national and local strategies: England
12 Effect of national and local strategies: Wales
13 Co-operation and arrangements
14 Power to request information
15 Civil sanctions
16 Funding
17 Levies

*3. Supplemental powers and duties*

18 Environment Agency: reports

[Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010]

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLlD) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 22 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru gynhyrchu Strategaeth / Cynllun Strategol Rheoli Perygl Llifogydd Lleol. Nododd DRhLlD 2010 Gyngor Sir Ynys Môn fel yr ALlLlA ar gyfer yr ardal. Mae'r gwahanol Awdurdodau Rheoli Risg (ARhR) yng Nghymru yn gyfrifol am wahanol ffynonellau perygl llifogydd. Mae'r ALlLlA yn gyfrifol am "berygl llifogydd lleol" a ddiffinnir fel perygl llifogydd o'r canlynol:

- Dŵr ffo wyneb
- Dŵr daear
- Cyrsiau dŵr cyffredin (yn gyffredinol, cyrsiau dŵr llai).

Mae'r cynllun strategol hwn yn egluro sut bydd llifogydd yn cael eu rheoli ar draws Ynys Môn. Mae hefyd yn cyflwyno crynodeb o'n Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLl), sef ein hail Strategaeth Leol. Er i ni gyhoeddi ein SLRhPLl a'n Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLl) ar wahân yn flaenorol, mae'r Strategaeth newydd yn integreiddio'r CRhPLl.

# Data

Mae Stats Cymru yn amlinellu bod y niferoedd canlynol o eiddo yn Ynys Môn mewn perygl o lifogydd o'r prif ffynonellau llifogydd a ganlyn, yn seiliedig ar gyhoeddiad cychwynnol Asesiad Risg Llifogydd Cymru (ARLlC) 2019:


**306**
**Afonydd**

**2470**
Dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach

**642**
Llanw

Digwyddiadau Llifogydd a Gofnodwyd yn Ynys Môn ers 2012:


- Gallai'r cofnodion llifogydd hyn ymwneud â llifogydd o unrhyw ffynhonnell.
- Mae'r data hwn yn ychwanegu at y data o'r mapiau APLIC (atodiad A, B, C), a allai nodi ardaloedd mewn perygl nad ydynt wedi'u cofnodi ar y mapiau llifogydd.



# Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Strategol?

**Preswylwyr, cymunedau a thirfeddianwyr**

- Helpu i'w hamddiffyn rhag beryglon llifogydd
- Nodi a rheoli meysydd risg uchel
- Rolau a chyfrifoldebau diffiniedig
- Hysbysu gwneud penderfyniadau



**Awdurdodau Rheoli Risg**

- Cydweithio â nhw ar reoli perygl llifogydd (RhPLl)
- Arwain dyraniad adnoddau effeithiol
- Alinio ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol

**Cyngor Sir Ynys Môn**

- Arwain gwneud penderfyniadau ac RhPLl
- Hysbysu buddsoddiadau seilwaith
- Alinio amcanion cynllunio gyda rheoli perygl llifogydd
- Sicrhau gwytnwch hinsawdd
- Hysbysu ceisiadau grant

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Dŵr Cymru
Welsh Water

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Amcanion Strategol Cynllun y Cyngor 2023-2028

Cynllun y Cyngor yw'r ddogfen allweddol sy'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer gwneud penderfyniadau ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Ein dymuniad yw gweithio gyda thrigolion, cymunedau a phartneriaid Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn greiddiol i'r Cynllun.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion arnynt:

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith..

### Gofal Cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb rywle i'w alw'n gartref.

### Yr Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 - Gwerthoedd

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 wedi'i ategu gan werthoedd craidd y sefydliad, sef y gwerthoedd a ddefnyddir i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, y cynlluniau strategol a'r gwasanaethau.

## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth fo'n gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym wedi ymrwymo i safonau uchel o ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder o weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.


Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

# Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn nodi'r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau y gallwn gyflawni ein
blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.

Yn ogystal, mae nifer o gynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol eraill sy'n cyd-fynd â'r cynllun strategol hwn (atodiad D).



# Meysydd Blaenoriaeth Allweddol

Mae’r meysydd blaenoriaeth allweddol wedi'u datblygu i gyd-fynd ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol (atodiad E) ac i adlewyrchu ein cyd-destun a'n blaenoriaethau lleol.

- Gwella dealltwriaeth o beryglon lleol llifogydd a pheryglon arfordirol
- Gwella cyfathrebu
- Cynyddu parodrwydd a gwydnwch
- Cydweithio i leihau perygl llifogydd a pheryglon arfordirol
- Lleihau perygl ac effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol
- Datblygu agwedd gynaliadwy a chyfannol
- Lle bo'n bosibl, blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf
- Darparu ymateb priodol, effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol
- Defnyddio gwybodaeth a data i lywio penderfyniadau cynllunio a llunio polisïau.

# Gwella dealltwriaeth o beryglon llifogydd / arfordirol lleol

## Pam bod hyn yn bwysig?

Galluogi gwneud penderfyniadau gwybodus, cefnogi gwell defnydd o'r tir a strategaethau lliniaru effeithiol, e.e. amddiffynfeydd rhag llifogydd a systemau rhybuddio cynnar, a sicrhau bod Ynys Môn yn gallu gwrthsefyll newidiadau i'r hinsawdd.

## Beth ydym ni am wneud?

- Diweddaru'r System Rheoli Perygl Llifogydd a chynnal adolygiad trylwyr o ddata asedau.
- Datblygu polisi ceuffosydd a chreu cynlluniau cynhwysfawr i asesu cyflwr asedau draenio ar draws y sir.
- Adolygu a mireinio polisïau'r cyngor ar gysylltiadau draenio priffyrdd newydd a phresennol i gyd-fynd ag arfer gorau ar gyfer RhPLl.

## Sut ydym ni am wneud hyn?

- Cofnodi pob achos o lifogydd
- Ymchwilio lle bo'n briodol.
- Sefydlu cofnod manwl o asedau cyrsiau dŵr. Asesu cyflwr asedau draenio.
- Datblygu system map sirol gyfan o asedau perygl llifogydd, Adroddiadau Ymchwilio i Lifogydd, cofnodion llifogydd hanesyddol ac ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

# Gwella Cyfathrebu

## Pam bod hyn yn bwysig?

Bydd gwella cyfathrebu a pharatoi yn helpu i lywio a galluogi gwneud penderfyniadau cadarnhaol. Bydd hyn yn gwella gwytnwch ac yn lleihau effeithiau negyddol, tra'n galluogi a gwella cydgysylltu ymdrechion atal ac ymateb i lifogydd i fod yn effeithiol.

## Beth ydym ni am wneud?

- Darparu arweiniad a chyfeiriad strategol yn leol.
- Targedu ardaloedd sydd mewn perygl mawr o lifogydd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o weithdrefnau brys pe bai llifogydd.
- Hyrwyddo a chydweithio â grwpiau gan gynnwys grwpiau llifogydd cymunedol.
- Sicrhau bod y wefan yn cynnwys gwybodaeth gyfredol a pherthnasol.
- Sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu derbyn rhybuddion llifogydd.

## Sut ydym ni am wneud hyn?

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu RhPLI, trwy weithgareddau ymgysylltu ymwybyddiaeth yn y gymuned a rhannu cyfathrebiadau rhybudd llifogydd.
- Datblygu dull strategol o gefnogi cymunedau cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.
- Adolygu a diweddaru gwefan y Cyngor i sicrhau bod gwybodaeth ddefnyddiol a chyfredol RhPLI ar gael.
- Datblygu set safonol o ymatebion i'r Cyngor i fynd i'r afael â phryderon a chwynion, gan sicrhau tryloywder ac ymwybyddiaeth y cyhoedd.

# Cynyddu parodrwydd a gwydnwch

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae lleihau effaith llifogydd ar gymunedau, seilwaith, a'r amgylchedd yn hollbwysig, tra'n galluogi ymateb cyflymach ac adferiad yn ystod llifogydd.

## Beth ydym ni am wneud?

- Cefnogi cymunedau i ddeall peryglon llifogydd yn well, i ymdopi'n well â lifogydd ac i reoli peryglon llifogydd iddynt hwy eu hunain.
- Cydweithio gyda chyrff statudol i hyrwyddo'r gwasanaeth rhybudd llifogydd presennol (CNC).
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mesurau atal llifogydd a'r gwydnwch sydd ar gael.
- Hyrwyddo buddion lluosog ar gyfer cynlluniau rheoli llifogydd.

## Sut ydym ni am wneud hyn?

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu RhPLl yn y gymuned trwy drefnu gweithgareddau ymgysylltu ymwybyddiaeth a rhannu cyfathrebiadau rhybudd llifogydd.
- Datblygu dull strategol o gefnogi cymunedau cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.
- Diweddaru gwefan y cyngor yn rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol a chywir ar gael i'r cyhoedd.
- Adolygu polisi bagiau tywod presennol y Cyngor.
- Sefydlu sesiwn friffio flynyddol i aelodau ar gyfer materion RhPLl.

# Cydweithio i leihau perygl llifogydd a pheryglon arfordirol

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae deall rolau a chyfrifoldebau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei chydgysylltu a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, gan sicrhau'r buddion mwyaf posibl i bob rhanddeiliad. Mae hyn hefyd yn meithrin ymddiriedaeth ymhlith cymunedau ac awdurdodau, gan hyrwyddo ymagwedd unedig at RhPLl.

## Beth ydym ni am wneud?

- Cynnal a rhannu cofrestr asedau.
- Sicrhau rhannu data effeithiol.
- Chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth fel bod y rhai sy'n elwa o gynlluniau rheoli llifogydd presennol neu arfaethedig yn gallu cyfrannu at eu cynllunio a'u rheoli.
- Sicrhau bod perchnogion glannau'r afon yn ymwybodol o'u dyletswyddau i gadw cyrsiau dŵr i lifo'n rhwydd.
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i bobl sy'n dymuno cynnal neu wella amddiffynfeydd rhag llifogydd ar dir preifat.

## Sut ydym ni am wneud hyn?

- Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer asedau preifat a chyhoeddus yn y gofrestr asedau perygl llifogydd.
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu RhPLl.
- Adolygu a sefydlu polisi'r Cyngor ar gysylltiadau priffyrdd newydd a phresennol.
- Datblygu set o ymatebion safonol i'r Cyngor i fynd i'r afael â phryderon a chwynion.
- Datblygu trefn ragweithiol ar gyfer rheoli asedau arfordirol.
- Sefydlu sesiwn friffio flynyddol i aelodau ar gyfer materion RhPLl.

# Lleihau perygl ac effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol

### Pam bod hyn yn bwysig?

Mae diogelu unigolion a chymunedau rhag niwed yn ystod digwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol yn hanfodol. Yn ogystal, mae atal colledion ariannol, cynnal bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem hefyd yn elfen hanfodol o wydnwch hinsawdd.

### Beth ydym ni am wneud?

- Nodi'r ardaloedd sydd â'r perygl mwyaf o lifogydd a blaenoriaethu RhPLl yn yr ardaloedd hynny.
- Sefydlu amserlenni cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.
- Tarfu llai ar wasanaethau hanfodol a seilwaith hanfodol.
- Sicrhau bod addasiadau arfordirol yn cael eu cymhwyso'n briodol i leihau risg i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.

### Sut ydym ni am wneud hyn?

- Ffurfioli proses reoli ar gyfer asedau amddiffyn yr arfordir a strwythurau dros dro.
- Cynhyrchu polisi ceuffos.
- Darparu diweddariadau ar gynnydd ddwywaith y flwyddyn ac adolygu cynlluniau rheoli perygl llifogydd.
- Datblygu trefn ragweithiol ar gyfer rheoli asedau arfordirol
- Cydgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i nodi seilwaith hollbwysig, cytuno ar rolau a chyfrifoldebau i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn weithredol yn ystod tywydd garw, a mynychu cyfarfodydd cydweithredu rheolaidd i rannu blaenraglenni buddsoddi.

# Agwedd gynaliadwy a chyfannol

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae ymagwedd gynaliadwy at RhPLI yn ystyried y rhyng-gysylltiadau rhwng twf economaidd, iechyd yr amgylchedd a thegwch cymdeithasol, gan arwain at atebion RhPLI mwy cynhwysfawr ac effeithiol.

## Beth ydym ni am wneud?

- Cynyddu'r holl fuddion a geir o gynlluniau rheoli/lliniaru llifogydd, gan gynnwys ansawdd dŵr, bioamrywiaeth ac amwynder yn ogystal ag RhPLI.
- Annog datblygiad cynaliadwy o fewn prosiectau RhPLIEA. Lle bo'n ymarferol, hyrwyddo seilwaith gwyrddlas o fewn prosiectau RhPLIEA.
- Annog cynlluniau sy'n ymwneud â Rheoli Llifogydd yn Naturiol (RhLIN) lle bo'n briodol.

## Sut ydym ni am wneud hyn?

- Ymchwilio i'r potensial ar gyfer Rheoli Llifogydd yn Naturiol (RhLIN) o fewn cynlluniau rheoli llifogydd.
- Sefydlu gwasanaeth cyn ap CCS i roi arweiniad cynnar ar CDC addas.
- Adolygu'r broses ymgeisio CCS gyfredol.
- Datblygu trefn ragweithiol ar gyfer rheoli asedau arfordirol.

# Lle bo'n bosib, blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf

**Pam bod hyn yn bwysig?**

Mae blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn lleihau effaith llifogydd ac yn sicrhau bod y poblogaethau mwyaf tebyg o gael niwed yn cael yr adnoddau angenrheidiol i ymdopi'n well.

Mae targedu adnoddau lle mae'r angen mwyaf hefyd yn sicrhau bod cyllid ac arbenigedd yn cael eu defnyddio'n effeithlon, a bod modd lleihau costau hirdymor ymatebion brys ac ymdrechion adfer.

**Beth ydym ni am wneud?**

- Datblygu rhaglen buddsoddi cyfalaf i leihau amlder llifogydd i'r ardaloedd sydd â'r perygl mwyaf.
- Datblygu 'catalog cyllid' o'r holl ffynonellau cyllid posibl o'r sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol ac eraill.
- Archwilio cyllid partneriaeth â'r Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol a ffynonellau eraill i gefnogi cynlluniau.
- Defnyddio adroddiadau Adran 19 (A19) i arwain buddsoddiad.

**Sut ydym ni am wneud hyn?**

- Diweddaru'r system Rheoli Perygl Llifogydd.
- Creu cynllun ar gyfer asesu'r asedau draenio presennol.
- Datblygu a gweithredu amserlen cynnal a chadw ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.
- Ffurfioli proses reoli ar gyfer asedau amddiffyn yr arfordir a strwythurau dros dro.
- Asesu perygl llifogydd yn seiliedig ar fethiant posibl asedau a reolir gan y Cyngor. Cydgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i nodi seilwaith hollbwysig, cytuno ar rolau a chyfrifoldebau i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn weithredol yn ystod tywydd garw, a mynychu cyfarfodydd cydweithredu rheolaidd i rannu blaenraglenni buddsoddi.
- Ceisio gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu trwy hyrwyddo buddion lluosog.

# Darparu ymateb priodol, effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol

**Pam bod hyn yn bwysig?**

- Mae'n lleihau effaith llifogydd ar gymunedau, ar seilwaith, ac ar yr amgylchedd.
- Mae'n hollbwysig er mwyn amharu llai ar y gwasanaethau brys yn ystod ac ar ôl llifogydd.
- Mae'n gwella parodrwydd, gan leihau costau mesurau adweithiol.

**Beth ydym ni am wneud?**

- Darparu cefnogaeth ac arweiniad priodol ac effeithiol i gymunedau lleol, cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.
- Sicrhau bod adrannau CSYM a sefydliadau eraill yn cydlynu'n effeithiol.
- Cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd yn briodol ac yn effeithiol.

**Sut ydym ni am wneud hyn?**

- Diweddaru'r System Rheoli Perygl Llifogydd.
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu e.e drwy weithgareddau ymgysylltu ymwybyddiaeth yn y gymuned a rhannu cyfathrebiadau rhybudd llifogydd.
- Datblygu dull strategol o gefnogi cymunedau cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.
- Sefydlu trefn ar gyfer ymateb i risg llifogydd.

# Defnyddio gwybodaeth a data i lywio penderfyniadau cynllunio a llunio polisïau

### Pam bod hyn yn bwysig?

Mae gwybodaeth a data yn hanfodol ar gyfer sicrhau gwneud penderfyniadau gwybodus, dyrannu adnoddau wedi'u targedu, a chreu RhPLl rhagweithiol a datblygu cynaliadwy.

### Beth ydym ni am wneud?

- Sicrhau bod y broses gynllunio yn cael ei llywio'n briodol drwy ystyried cynlluniau a pholisïau perthnasol megis y CRhPLl, y Cynllun Rheoli Basn Afon a Chynlluniau Rheoli Traethlin.
- Rheoleiddio cyrsiau dŵr cyffredin a gorfodi pwerau i gynnal llif rhwydd.
- Sicrhau bod pob cam o'r broses CCS yn effeithiol ac effeithlon.
- Sicrhau bod RhPLl yn cael ei gynnwys wrth lunio polisi cynllunio.

### Sut ydym ni am wneud hyn?

- Creu polisi ceuffos.
- Adolygu a diweddaru is-ddeddfau drafft gan CLlLC ac ystyried eu mabwysiadu yn Ynys Môn.
- Sefydlu gwasanaeth cyn-ymgeisio CCS.
- Adolygu'r broses ymgeisio CCS gyfredol.
- Datblygu proses ar gyfer gwella adolygu technegol CCS.
- Adolygu proses mabwysiadu / cytundeb CCS a datblygu gweithdrefn ar gyfer gorfodi CCS.
- Sefydlu gofynion cynnal a chadw asedau mabwysiedig.
- Adolygu a sefydlu polisi'r Cyngor ar gysylltiadau priffyrdd newydd a phresennol.

# Llywodraethu – Monitro ac Adrodd yn ôl

- Bydd y Strategaeth / Cynllun Strategol yn sefydlog am gyfnod o 6 blynedd. Mae'r Cynllun Gweithredu Llifogydd wedi'i atodi i'r Strategaeth / Cynllun Strategol ac mae'n “ddogfen fyw”. Bydd yn parhau i ddatblygu wrth i wybodaeth, arbenigedd ac adnoddau newydd ddylanwadu ar gyflawni’r mesurau a’r camau gweithredu.


- Bydd y cynllun strategol yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn monitro dilyniant ar y gweithredu.

- Dylid adolygu'r cynllun strategol ar y cyd â'r adolygiad nesaf o'r Strategaeth Genedlaethol, a dylid diweddaru'r Cynlluniau Gweithredu bob dwy flynedd, gydag adroddiadau interim ar gynnydd bob blwyddyn.




# Atodiad A: Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

Defnyddiwyd data'r Gofrestr Cymunedau Mewn Perygl (CCmP) a Ffiniau Dalgylchoedd Arfordirol a Mewndirol i greu ffiniau rhanbarthol a lleol ar gyfer pob senario a aseswyd.




Ardaloedd Perygl Llifogydd Mewndirol ar Ynys Môn





Ardaloedd Perygl Llifogydd Arfordirol ar Ynys Môn

# Atodiad B: Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd


Mae'r siartiau isod yn cyflwyno'r perygl llifogydd a ragwelir i dderbynyddion risg (eiddo preswyl, eiddo dibreswyl a gwasanaethau hanfodol) sydd mewn perygl o lifogydd o'r amrywiol ffynonellau ar gyfer senario digwyddiad risg uchel.

Daw'r data hwn o'r Set Ddata Derbynnydd Cenedlaethol a Mapiau Asesiad Perygl Llifogydd (APLl) Cymru .


**Perygl Llifogydd o Ddŵr Wyneb**




**Perygl Llifogydd o'r Môr**




**Perygl Llifogydd o Afonydd**



# Atodiad C: Crynodeb o ardaloedd perygl llifogydd ar Ynys Môn

Mae'r data a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad hwn yn cynnwys data llifogydd a ragfynegwyd ac a gofnodwyd


| Ardal CmP | Tarddiad Llifogydd | Derbynyddion mewn Perygl |
|---|---|---|
| Amlwch | Afonydd | Preswyl, Dibreswyl |
| Biwmares | Môr | Preswyl, Dibreswyl, Gwasanaethau Hanfodol |
| | Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach | Dibreswyl, Gwasanaethau Hanfodol, Ffyrdd Bach |
| | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Benllech | Afonydd | Preswyl, Dibreswyl, Gwasanaethau Hanfodol |
| Dwyran | Môr | Preswyl, Gwasanaethau Hanfodol |
| | Afonydd | Preswyl |
| | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Dyffryn | Môr | Preswyl, Dibreswyl, Ffyrdd Bach |
| Gaerwen | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Caergybi | Môr | Preswyl, Dibreswyl |
| | Afonydd | Preswyl |
| | Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach | Preswyl, Dibreswyl, Gwasanaethau Hanfodol |
| | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Llandegfan | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Llanfair Pwllgwyngyll | Afonydd | Preswyl, Rheilffyrdd a Ffyrdd |
| | Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach | Preswyl, Dibreswyl, Gwasanaethau Hanfodol, Rheilffyrdd a Ffyrdd |
| | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Llanfechell | Afonydd | Preswyl |
| Llangaffo | Môr | Ffyrdd Bach |
| | Afonydd | Ffyrdd Bach |
| | Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach | Rheilffyrdd |
| Llangefni | Afonydd | Preswyl, Dibreswyl, Rheilffyrdd |
| | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Llangoed | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Llangristiolus | Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach | Ffyrdd Bach |
| Malltraeth | Môr | Preswyl, Ffyrdd Bach |
| | Afonydd | Ffyrdd Bach |
| Porthaethwy | Môr | Preswyl |
| | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Moelfre | Afonydd | Preswyl |
| Pentre Berw | Yn seiliedig ar ddata llifogydd | |
| Traeth Coch | Môr | Preswyl |
| Trearddur | Môr | Preswyl |

# Atodiad D: Cydlynu â chynlluniau Strategol eraill

Yn ogystal â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (RhPLlEA) yng Nghymru, mae nifer o gynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth hon.





Y Saith Nod Llesiant



# Atodiad E: Meysydd blaenoriaeth allweddol sy'n cyd-fynd ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol

| | Meysydd Blaenoriaeth Allweddol | Amcanion y Strategaeth Genedlaethol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E |
| 1 | Gwella dealltwriaeth o beryglon llifogydd / arfordirol lleol | ✓ | | | | |
| 2 | Cyfathrebu gwell | ✓ | | | | |
| 3 | Cynyddu parodrwydd a gwydnwch | | ✓ | | | |
| 4 | Cydweithio i leihau perygl llifogydd / arfordirol | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| 5 | Lleihau perygl ac effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol | | ✓ | | ✓ | |
| 6 | Agwedd gynaliadwy a chyfannol | | ✓ | ✓ | | |
| 7 | Lle bo'n bosib, blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf, lle | | | ✓ | | |
| 8 | Darparu ymateb priodol, effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol | | | | | ✓ |
| 9 | Defnyddio gwybodaeth a data i lywio penderfyniadau cynllunio a llunio polisïau | | | | ✓ | |



# Atodiad F: Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli perygl llifogydd

Mae Cyngor Ynys Môn (CSYM) yn gyfrifol am arwain y gwaith o reoli perygl llifogydd o ffynonellau lleol, - sy'n cynnwys dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin a lle mae rhyngweithio rhwng y ffynonellau hyn a phrif afonydd neu'r môr.

Yn dilyn gweithredu'r DRhLID, dynododd tîm rheoli CSYM y 'Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo' i arwain y gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â deddfwriaeth, ac i sicrhau bod yr holl wasanaethau perthnasol ac asiantaethau allanol yn cynorthwyo i gyflawni gofynion y Ddeddf hon.

Y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer y 'Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo' sydd â'r awdurdod dirprwyedig ar gyfer gweithredu'r Strategaeth.

Mae'r diagram yn dangos yr adrannau o fewn CSYM sydd â rhan i'w chwarae mewn lleihau perygl llifogydd a gweithredu'r Ddeddf fel ALILIA.




*gan gynnwys Cefn Gwlad ar Amgylchedd

**Ymgynghoriad  Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd / Cynllun Strategol Perygl Llifogydd**

**Tachwedd 11eg – Rhagfyr 20fed 2024**

**Ymatebion**

**Chwefror 2025**

**Statws: Swyddogol**

**Paratowyd gan:**

| Awdur | Fersiwn | Dyddiad |
|---|---|---|
| M Williams a S Wasik | 1 | 07.02.2025 |

**Cyflwyniad**

Mae'r Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd yn ddogfen statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal proses ymgynghori gyhoeddus am o leiaf 6 wythnos. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng Tachwedd 11eg 2024 a Rhagfyr 20fed 2024.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, cynhaliwyd pedwar digwyddiad galw heibio yn y lleoliadau canlynol:-

1. **Llangefni** – 19/11/24 o 2yh tan 7yh
2. **Amlwch** – 20/11/24 o 2yh tan 7yh
3. **Beaumaris** – 25/11/24 o 2yh tan 7yh
4. **Caergybi** – 28/11/24 o 2yh tan 7yh

Hysbysebwyd y digwyddiad ymgynghori cyhoeddus a'r digwyddiadau galw heibio drwy wahanol lwyfannau cyfryngau, megis gwefan y Cyngor a safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Rhannwyd nodiadau atgoffa am y digwyddiadau galw heibio ymlaen llaw.

Trwy e-bost, cafodd aelodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill megis Cynghorau Tref a Chymuned wybod am yr ymgynghoriad.

Rowland Thomas – Peiriannydd Grŵp o fewn Ffyrdd Fawr, a chafodd ei wahodd ac aeth i gyfweliad ar y radio i hyrwyddo'r broses ymgynghori gyhoeddus. Yn ogystal â hyn, hysbysebwyd yr ymgynghoriad drwy ddatganiad i'r wasg, a gellir ei gael drwy'r ddolen ganlynol: Adborth cyhoeddus hanfodol i'r cynlluniau newydd ar lifogydd Ynys Môn

Hysbysebwyd y cyfnod ymgynghori hefyd ar wefan Ynys Môn, â oedd yn cynnwys holiadur ar-lein.

**Crynodeb o’r Ymgynghoriad**

Adborth o’r Wefan

Roedd tri deg tri o ymweliadau i’r tudalen ymgynghori ar-lein. Sylwch fod ymweliad yn cael ei ddiffinio fel cyfres o geisiadau tudalen gan yr un ymwelydd â chanfan unigryw, gyda amser o ddim mwy na 30 munud rhwng pob cais.

Ni dderbyniwyd unrhyw adborth o'r wefan ac ni chafwyd unrhyw holiaduron wedi’u cwblhau.

Adborth o’r Digwyddiadau Galw Heibio

Yn gyfan gwbl, mynychodd un ar ddeg o aelodau o’r cyhoedd y digwyddiadau galw heibio, ynghyd ag un swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Ni dderbyniwyd unrhyw adborth, ac ni chafwyd unrhyw holiaduron wedi’u cwblhau.

Adborth Cyffredinol

Ni dderbyniwyd unrhyw adborth gan rhanddeiliaid, aelodau lleol na Chynghorau Cymuned.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniwyd un e-bost, gyda thri sylw i’w ystyried. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd a sut ystyrwyd y sylwadau hynny.

| | |
|---|---|
| **Sylw 1** | *‘...It is disappointing that the town is only mentioned in Annex C (Summary of flood risk areas on Anglesey) under risk from the sea. Surely the town should be included in the flood risk from Surface water and small watercourses? Some 40 properties along Penlon/Lon y Waen/Lon y Gamfa suffered from internal flooding from surface water & small watercourse during November 2017. As such the Council will have this recoded flood data and Appendix C should be updated.’* |
| **Adroddiad Swyddog** | - Mae 70 o ddigwyddiadau llifogydd wedi’u hadrodd ym Mhorthaethwy ers 2012 (amrywiaeth o ffynonellau). Mae hyn yn cael ei fanylu yn Atodiad E. O’i gymharu ag ardaloedd eraill, mae rhai lleoliadau eraill wedi profi nifer hyd yn oed uwch o ddigwyddiadau.<br>- Mae Porthaethwy wedi’i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu ac mae’n cael ei ystyried yn ardal 'mwyaf mewn perygl'. |
| **Newidiad a Argymhellir** | - Priodolir nifer uchel o ddigwyddiadau llifogydd (o fewn y 10 uchaf) i’w ddosbarthiad fel ‘ardal fwyaf mewn perygl’. |

| | |
|---|---|
| **Sylw 2** | ‘ *Welcome that the Council is to Regulate ordinary watercourses and enforce powers to maintain a free passage of flow. Would this also include adopting ordinary watercourse byelaws? This would be separate from the proposal to develop a culverting policy.’* |
| **Adroddiad Swyddog** | - Mae Gweithred Polisi 08 yn manylu *‘Adolygu a diweddaru is-ddeddfau drafft gan CLlLC ac ystyried eu mabwysiadu yn Ynys Môn’*, sy'n cwmpasu mabwysiadu is-ddeddf ar gyfer cwrs dwr arferol. |
| **Newidiad a Argymhellir** | - Dim newidiadau oherwydd mae adolygiad o’r is-ddeddfau eisoes wedi’i gynnwys yn Cynllun Gweithredu Polisi |

| | |
|---|---|
| **Sylw 3** | *‘Note the easy read version states that “Culverts are structures that drain water away from roads.” Suggest that this is not factually correct and may be misleading.’* |
| **Adroddiad Swyddog** | - Nodwyd. |
| **Newidiad a Argymhellir** | - Dim newidiadau oherwydd mae’r diffiniad yn y ddogfen hon wedi’i symleiddio er mwyn bod yn addas ar gyfer cynulleidfa sy’n chwilio am ddarlleniad hawdd. Mae’r dull hwn yn blaenoriaethu hygyrchedd a dealltwriaeth dros gywirdeb technegol. I gael ddiffiniad manwl gywir, cyfeiriwch at y ddogfen strategaeth lawn. |